Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru

30 Gorffennaf 2018

Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru

Annwyl Tracey,

Diolch am eich ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Rhaglen Cefnogi Pobl. Trafododd y Pwyllgor yr ymateb yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2018 ynghyd â chyngor yr Archwilydd Cyffredinol ar yr ymateb.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn 11 o'r 13 argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor, ac mae'n nodi rhesymu Llywodraeth Cymru dros wrthod dau argymhelliad. At ei gilydd, mae'r Pwyllgor yn ystyried bod yr ymatebion yn foddhaol o ran eu manylder. Fodd bynnag, fel y nododd yr Archwilydd Cyffredinol, bydd cynnydd yn erbyn y camau a nodir yn ein hargymhellion yn dibynnu'n helaeth ar y dystiolaeth a'r ymgysylltu sy'n sail i unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol. Gan dynnu yn rhannol ar gyngor yr Archwilydd Cyffredinol, dyma nodi ein sylwadau ar ymateb Llywodraeth Cymru isod.

Argymhelliad 1: Mynegwyd pryderon ynghylch oedi wrth gynhyrchu canllawiau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl. O ran y canllawiau a drefnwyd ar gyfer gwanwyn 2018, nis cyhoeddwyd o hyd. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi priodoli'r oedi hwn i'r ffaith ei bod am osgoi dryswch gormodol wrth iddi fwrw ymlaen â'i phrosiectau braenaru ariannu hyblyg. Fodd bynnag, credwn y gallai'r canllawiau fod wedi helpu i egluro disgwyliadau a bod y risg o ddryswch wedi mynd heibio i raddau helaeth erbyn hyn.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Pe bai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i chynlluniau i gyflwyno'r grant integredig newydd o fis Ebrill 2019, rydym yn pryderu y gallai'r oedi cyn cyhoeddi'r canllawiau ar gyfer Cefnogi Pobl leihau eu gwerth.

O'r herwydd, mae'r Pwyllgor yn gofyn am eglurhad o'r rhesymau dros yr oedi a'i effaith. Rydym hefyd yn gofyn am fanylion yr amserlen y byddai Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio iddi o ran cyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer unrhyw grant integredig newydd.

Argymhelliad 2: Canolbwynt yr argymhelliad hwn oedd sicrhau ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon â rhanddeiliaid wrth werthuso effaith y cynlluniau peilot ar gyfer ariannu hyblyg a phennu cwmpas ac amseriad unrhyw integreiddio grant pellach a fyddai'n effeithio ar y Rhaglen Cefnogi Pobl y tu hwnt i 2018-19. Rydym yn nodi dull eang Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid, ond yn ôl yr adborth a roddwyd yn anffurfiol i Aelodau'r Pwyllgor gan y rhai yn y sector, nid yw'r ymgysylltu hwn wedi bod yn gynhyrchiol. Clywsom gan rai rhanddeiliaid eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed, ac mae pryderon mai negyddol yw'r ymateb i farn y sector. Cawsom ar ddeall bod rhai rhanddeiliaid yn teimlo na allant leisio eu barn gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Pwyllgor bryderon ynglŷn â'r adborth hwn. Er mwyn deall y rhain yn well, hoffem gael esboniad o sut mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau, trwy ei gwaith ymgysylltu, y gall rhanddeiliaid fynegi eu barn mewn amgylchedd agored lle maent yn teimlo eu bod yn gallu dweud eu meddwl heb sgil-effeithiau posibl.

Argymhelliad 7: Gwrthododd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn, gan nodi na all gyflawni'r gwaith sydd ei angen ar ei phen ei hun. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran goruchwylio'r cynlluniau peilot ar gyfer ariannu hyblyg, ac i gefnogi ei benderfyniadau, mae gan Lywodraeth Cymru rôl wrth gasglu'r math o dystiolaeth a ddisgrifiwyd gan y Pwyllgor yn ei argymhelliad.

Cawsom sicrwydd yn yr ymateb bod gwaith perthnasol ar y gweill, ond rydym am i Lywodraeth Cymru egluro ei rhesymau dros wrthod yr argymhelliad hwn. Rydym hefyd am gael y manylion am faint y dystiolaeth am yr effeithlonrwydd posibl a fydd ar gael, ym marn Llywodraeth Cymru, i gefnogi ei phenderfyniadau.

Argymhelliad 8: Mae'r ymateb yn cyfeirio at drafodaethau sydd wedi digwydd ynghylch rôl y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yng nghyd-destun y

cynlluniau peilot ar gyfer ariannu hyblyg. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ar sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol ymgysylltu â'r cynlluniau peilot ar gyfer ariannu hyblyg.

Argymhelliad 13: Hoffem gael arwydd o amserlenni perthnasol ar gyfer y camau a nodir mewn ymateb i'r argymhelliad hwn. Yn benodol, hoffem gadarnhau a fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddi fod wedi datblygu fframwaith canlyniadau addas ar gyfer unrhyw grant integredig newydd o'r cychwyn cyntaf.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i rannu'r adroddiad gwerthuso interim â ni. Mae'n bosibl y byddwn am ddychwelyd i'r pwnc hwn ddiwedd 2018 ar ôl i'r cynigion ar gyfer trefniadau ariannu grant yn 2019-20 gael eu cadarnhau. Bydd hyn yn amodol ar ystyried a fydd pwyllgorau eraill yn trafod y mater hwn fel rhan o'u gwaith craffu ar y gyllideb.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd